



www.taithbrenig.co.uk
www.brenigway.co.uk



www.cefniglwladsirddinbych.org.uk
www.denbighshirecountryside.org.uk
www.dwcymru.co.uk

Contacts:
The Brenig Way has been developed by Denbighshire Countryside Service in partnership with Dŵr Cymru Welsh Water.

Denbighshire Countryside Service,
Loggerheads Country Park,
01352 810614

Llyn Brenig Visitor Centre
01490 420463

Cysylltiadau:
Mae Llwybr Brenig wedi ei ddatblygu gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Dŵr Cymru Welsh Water.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Cymru,
Parc Gwledig Loggerheads,
01352 810614

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig
01490 420463

Er pob ymdrech i sicrhau fod y llyfryn hwn mor fanwl gywir ag sydd bosib, nid yw'r awduron na'r cyhoeddwy'r yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau gwallau.

Whilst every effort has been made to make this booklet as accurate as possible, neither authors or publishers accept any responsibility for the consequence of errors.

Mae Taith Brenig yn dechrau yn harddwch Dyffryn Dyfrdwy ac mae'n mynd â cherddwyr i rai o'r rhannau tawelaf yn Sir Ddinbych, lle mae llwybrau heddychlon yn nadreddu drwy goedwigoedd afonydd.

Mae'n dilyn ffyrdd hynafol y porthmyn ac yn mynd heibio i garneddau sy'n hynach fyth, gan lywio ei ffordd drwy Goedwig Clocaenog i ddatgelu golygfeydd syfrdanol o Fryniau Clwyd ym Mhincyn Llŷs ac o gwmpas Cyffylliog. Mae'n gorffen gyda dringfa gyson ond heddychlon ar hyd Afon Clywedog, gan fynd heibio i ddyrnaid yn unig o dai, i gyrraedd Llyn Brenig wrth y Llwybr Archeolegol. Mae hwn yn safle man claddu o'r Oes Efydd, gyda sawl carnedd ddefodol yn creu ymdeimlad o unigedd yn erbyn cefndir syfrdanol Hiraethog ac Eryri. Fe gwblheir tro hamddenol o gwmpas y llyn drwy gerdded ar draws argae'r Brenig i orffen y daith yn y Ganolfan Ymwelwyr lle cewch chi fwynhau danteithion yn haeddiannol.

Mae Taith Brenig wedi ei farcio gyda chyfeirbwyntiau nodedig sy'n seiliedig ar y carneddau sydd i'w cael ar hyd y ffordd. Mae wedi ei ddylunio i'w gerdded dros 2 neu 3 diwrnod i'r naill gyfeiriad neu'r llall, gyda'r cerddwyr yn aros dros nos mewn llety. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer diwrnod o gerdded, fel sy'n cael ei awgrymu yn y cardiau sy'n cyd-fynd â hyn.

Corwen

Mae yna le i barcio ceir yng Nghorwen. Mae yna sawl bws yn gwasanaethu Corwen o gyfeiriad Rhuthun, Llangollen a'r Bala. I gael mwy o wybodaeth foniwch Traveline ar 0871 2002233, neu ewch i www.traveline-cymru.info

Llyn Brenig

Mae yna le i barcio yng Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig yn ystod y dydd a hynny gydol y flwyddyn, ond 'does yna ddim parcio dros nos ar unrhyw gyfri. Cysylltwch â'r Ganolfan Ymwelwyr ar 01490 420463 i gael amseroedd cau gan eu bod yn amrywio drwy gydol y flwyddyn.

Bws Brenig (Gwasanaeth 72)

Mae Bws Brenig, gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan grant, yn rhedeg o Gorwen i Ddinbych heibio Llyn Brenig. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar: www.brenigway.co.uk (www.taithbrenig.co.uk) www.traveline-cymru.info

Llety:

I gael gwybodaeth i dwristiaid ac ar gyfer llety cysylltwch â: Swyddfa'r Ganolfan Groeso yn Llangollen ar 01978 860826 neu ar llangollen@nwtic.com www.visitwales.com

Mae yna nifer o ddarparwyr lluniaeth ar y llwybr, yn enwedig ar hyd y rhan ddeheuol, ond cysylltwch â nhw i wirio amseroedd agor gan eu bod yn amrywio. Mae rhifau cyswllt i'w cael ar wefan Llwybr Brenig.

Mapiau

Fe argymhellir yn gryf bod cerddwyr â'r mapiau Ordnance Survey priodol efo nhw: OS Explorer (Oren) 255 Llangollen and the Berwyns OS Explorer (Oren) 264 Vale of Clwyd

The Brenig Way starts in the beautiful Dee Valley and takes walkers into some of the quietest parts of Denbighshire, where peaceful paths snake through natural woodlands and along steep sided river valleys.

It follows ancient drovers roads and passes even more ancient cairns, navigating its way through Clocaenog Forest to reveal stunning views of the Clwydian Range at Pincyn Llŷs and around Cyffylliog. It culminates in a steady, but peaceful, climb along the Afon Clywedog, passing just a handful of houses, to reach Llyn Brenig at the Archaeological Trail. This is the site of a Bronze Age burial ground, with several ritual cairns creating a sense of solitude against the stunning backdrop of Hiraethog and Snowdonia. A gentle walk around the lake is completed by walking across the Brenig dam to finish the walk at the Visitors Centre for a well-earned treat.

The route of the Brenig Way has been marked with distinctive waymarkers based on the stone cairns found along the way. It has been designed to be walked over 2 or 3 days in either direction, with walkers stopping overnight in accommodation. It can also be used for day walks, as suggested in the accompanying cards.

Corwen

Car parking is available in Corwen. Corwen is served by several buses from Ruthin, Llangollen and Bala directions. For more information call Traveline on 0871 2002233, or go to www.traveline-cymru.info

Llyn Brenig

Day time parking is available at Llyn Brenig Visitor Centre all year round, but there is strictly no overnight parking. Please contact the Visitor Centre on 01490 420463 for closing times as these vary through the year.

Brenig Bus (Service 72)

The Brenig Bus is a grant funded service running from Corwen to Denbigh via Llyn Brenig. For up to date information, please check on: www.brenigway.co.uk www.traveline-cymru.info

Accommodation:

For tourist and accommodation information contact: Tourist Information Office in Llangollen on 01978 860826 or on llangollen@nwtic.com www.visitwales.com

There are several refreshment providers along the route, especially along the southern section, but please contact them to check opening times as they do vary. Contact numbers can be found on the Brenig Way website

Mapas

It is strongly recommended that walkers carry the appropriate Ordnance Survey maps with them: OS Explorer (Orange) 255 Llangollen and the Berwyns OS Explorer (Orange) 264 Vale of Clwyd

Gair i Gall...

Mae rhannau o'r llwybr yn egr ac yn wlyb, felly cymeradwyir esgidiau cerdded cryfon. Mae cyrchiad i doiledau'n gyfyngedig, yn enwedig yn rhan ogleddol y llwybr.

Mae rhai rhannau'n bellennig iawn, felly byddwch yn ofalus a gofalwch fod rhywun yn gwybod ble'r ydych chi. Mae signal ffôn symudol yn amrywio, yn enwedig yng Nghoedwig Clocaenog ac o gwmpas Cyffylliog. Yn achlysurol efallai y bydd yna weithgareddau yng Nghoedwig Clocaenog sy'n golygu gorfod addasu'r llwybr dros dro. Gwirwch ar y wefan cyn gadael.

Y Cod Cefn Gwlad

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch ymlaen a dilynwch unrhyw arwyddion.
- Gadewch gathiau ac eiddo fel y byddwch yn eu ffeindio nhw.
- Gwarchodwch blanhigion ac anifeiliaid, ac ewch â'ch sbwriel adref efo chi.
- Cadwch eich cŵn dan reolaeth.
- Ystyriwch bobl eraill.

Dod â'ch ci.

Gwnewch yn siŵr fod eich cŵn dan reolaeth bob amser. Byddwch yn arbennig o ofalus nad yw eich ci'n dychryn defaid neu ŵyn, a chofiwch fod gwartheg sydd â lloï yn arbennig o amddiffynnol. Os bydd anifail fferm yn rhedeg ar eich ôl chi â'ch ci, mae'n saffach gadael eich ci oddi ar y tennyn.

Cadwch eich ci dan reolaeth dynn yn ystod y tymor nythu – o'r gwanwyn cynnar i ddiwedd yr haf, gan y gellir dychryn adar sy'n nythu o'u nythod a hynny'n gadael wyau neu gywion yn amlwg i'r elfennau ac ysglyfaethwyr.

Word to the Wise..

Parts of the route are rough and can be wet in places, so stout walking shoes or boots are recommended. Access to toilets is limited, particularly in the northern section of the route.

Some sections are very remote, so please take care and ensure that somebody knows where you are. Mobile phone reception is patchy, especially in Clocaenog Forest and around Cyffylliog. Occasionally there may be activities within Clocaenog Forest which require the route to be temporarily adjusted. Please check on the website before leaving.

The Country Code

- Be safe – plan ahead and follow any signs.
- Leave gates and property as you find them.
- Protect plants and animals, and take your litter home.
- Keep dogs under close control.
- Consider other people.

Taking your dog.

Please ensure that your dogs are under control at all times. Take particular care that your dog doesn't scare sheep or lambs, and be aware that cows with calves are particularly protective. If a farm animal chases you and your dog, it is safer to let your dog off the lead.

Please keep close control of your dog during the nesting season – from early spring to late summer, as ground nesting birds can be scared from their nests, leaving eggs or chicks exposed to the elements and predators.



Mae Taith Brenig yn llwybr 32 milltir sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer cerddwyr ac mae'n ymdroelli o Gorwen i fyny i Llyn Brenig.

The Brenig Way is a 32 mile promoted route for walkers, meandering from Corwen up to Llyn Brenig.



